



YSGOL GYMUNED LLANFEHELL COMMUNITY SCHOOL  
FFORDD Y MYNYDD  
LLANFEHELL  
AMLWCH  
YNYS MÔN  
LL68 OSA



PENNAETH / HEAD TEACHER: Mrs. Meinir L. Roberts B.Add. (Anrhyd.)

01407 710 512

[pennaeth.llanfechell@ynysmon.gov.uk](mailto:pennaeth.llanfechell@ynysmon.gov.uk)

[www.llanfechell.anglesey.sch.uk](http://www.llanfechell.anglesey.sch.uk)

### **Ebost**

Mae'r Cyngor Eco'n am i'r ysgol leihau'r defnydd a wneir o bapur. Rydym yn awyddus felly i anfon llythyrau at rieni o hyn allan drwy ebost yn unig. Nid yn unig y byddai hyn yn gostwng faint o bapur rydym yn ei ddefnyddio ond byddai hefyd yn lleihau y gost o lungopio llythyrau. Os ydych yn fodlon derbyn gohebiaeth drwy ebost a fydddech gystal a dychwelyd y bonyn isod i'r ysgol erbyn Dydd Llun Ionawr y 26ain. Byddwch yn parhau i dderbyn llythyrau papur drwy law eich plentyn oni fyddwch yn dychwelyd y bonyn isod.

### **Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Gymuned Llanfechell**

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas Cyfeillion yr ysgol ar nos Fawrth Ionawr y 27ain am 6yh. Cyfle fydd hwn i ni rannu syniadau a threfnu gweithgareddau codi arian.

### **Plant yn cyrraedd yn hwyr**

Gwelaf bod nifer gynyddol o blant yn cyrraedd yr ysgol wedi i'r gloch ganu. Mae'r achosion hyn yn cael eu cofnodi yn y gofrestr ac yn cael eu trafod gyda'r Swyddog Lles Addysg yn y cyfarfodydd misol. Gofynnaf yn garedig i chwi sicrhau fod eich plentyn / plant ar iard yr ysgol cyn i'r gloch ganu.

### **Bocsys Bwyd**

Mae Ysgol Llanfechell yn rhan o 'Gynllun Ysgolion Iach' ac yn dilyn canllawiau statudol Llywodraeth Cymru 'Blas am Oes'. Disgwylir i rieni'r plant hynny sy'n dod â brechdannau i'r ysgol sicrhau fod y pecynnau bwyd mor iachus â phosib. Gofynnwn i chi geisio osgoi rhoi siocled yn y bocs bwyd. Caniateir 'treat' ar Ddydd Gwener yn unig.

Mrs Meinir L Roberts  
Pennaeth

**Dymunaf dderbyn gohebiaeth drwy ebost. Fy nghyfeiriad ebost yw**

\_\_\_\_\_

**Nid wyf yn dymuno derbyn gohebiaeth drwy ebost. Rwyf am i'm mhlentyn barhau i ddod â llythyrau gartref.**

Enw fy mhlentyn: \_\_\_\_\_ (arwyddwyd gan riant) \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_